

# Hanes Abigail



*[Mae Abigail yn gymeriad yn Llyfr Cyntaf Samuel]*

## **ARWEINYDD**

Croeso i chi i gyd i'r oedfa. Heddiw, rydym yn mynd i edrych ar wraig oedd yn enwog am ei doethineb. Ei henw hi oedd Abigail, a hi oedd ail wraig y Brenin Dafydd. Roedd hi'n llawer mwy doeth na'i gŵr, ac fe lwyddodd i atal rhyfel trwy ei doethineb.

Yn gyntaf, fe wnawn ni gynnau kannwyll fel arwydd ein bod yn dechrau'r oedfa.

*[Cynnau kannwyll!]*

## **GWEDDI**

Diolch am gyfle i ddod at ein gilydd i dy addoli di heddiw. A diolch am gwmni cydaddolwyr wrth i ni ddod at ein gilydd i glywed y Beibl yn cael ei ddarllen a'i esbonio, ac wrth i ni weddïo a chanu emynau gyda'n gilydd. Bydd gyda ni yn enw Iesu. Amen

**EMYN 319** 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd'

## **ARWEINYDD**

Yn y cyfnod hwn, cyn iddo ddod yn frenin, roedd Dafydd yn byw yn y diffeithwch mewn lle o'r enw Carmel. Hefyd yn byw yno roedd gŵr o'r enw Nabal a'i wraig Abigail. Roedd Nabal yn dipyn o ffŵl, ac mae'n llwyddo i wylltio Dafydd un diwrnod. Mae Dafydd a'i weision yn penderfynu cychwyn allan i ladd Nabal a'i ddyinion. Ond mae Abigail yn clywed am hyn ac yn rhuthro allan i gwrdd â Dafydd cyn iddo ymosod ar ei gŵr. Ar ôl mynd â bwyd iddyn nhw, mae hi trwy ei doethineb yn llwyddo i berswadio Dafydd i droi am adref yn heddychlon. Ychydig ddiwrnodau yn ddiweddarach mae Nabal yn syrthio'n farw. Ar ôl clywed hyn mae Dafydd yn anfon neges at Abigail yn ei gwahodd i fod yn wraig iddo, ac mae hithau'n cytuno.



**DARLLENIAD** 1 Samuel 25:23–35

Yn awr, fe wnawn ni wrando ar ddarn o'r stori lle mae Abigail wedi rhuthro i gwrdd â Dafydd ac yn ceisio'i berswadio i beidio ag ymosod ar ei gŵr.

**EMYN 483** 'Mi glywaf dyner lais yn galw arnaf fi'

**ARWEINYDD**

Gadewch i ni wrando unwaith eto ar eiriau Dafydd lle mae'n dweud wrth Abigail ei bod hi wedi atal ymladd ofnadwy trwy ei doethineb:

'Bendigedig fyddo'r Arglwydd, Duw Israel, am iddo dy anfon di heddiw i'm cyfarfod. Bendith ar dy gyngor, ac arnat tithau, am iti fy atal heddiw rhag dod i dywallt gwaed a dial dros of fy hun. Yn wir iti, cyn wired â bod yr Arglwydd, Duw Israel, yn fyw, yr un a'm hataliodd rhag dy ddrygu . . . Dos adref mewn heddwch; edrych, yr wyf wedi gwrandao arnat a chaniatáu dy gais.'

**MYFYRDOD**

Dyma dri phwynt yn ymwneud â stori Abigail.

## **1. Mae Abigail yn mynd ati'n syth i geisio datrys y broblem**

Ar ôl clywed bod Dafydd ar ei ffordd, mae'n rhuthro i'w gyfarfod ac i siarad ag ef. Dywedir mai trwy fynd at wraidd y broblem y mae ei datrys – ac nid wrth gilio i'r cyfeiriad arall. Pa mor aml ry'n ni'n osgoi problemau ac yn esgus nad ydynt yn bodoli? Ond yn y diwedd, yr unig ffordd o ddatrys unrhyw broblem yw trwy fynd ati ac nid rhedeg i ffwrdd rhagddi.

## **2. Mae Abigail yn defnyddio'i chalon a'i phen i ddatrys y broblem**

Yn gyntaf mae'n mynd â llwythi o fwyd gyda hi i'w roi i Dafydd a'i weision. Yna yn araf, yn bwyllog ac yn rhesymegol, mae'n dangos i Dafydd pam na ddylai ymosod ar ei gŵr. Mae'n dangos iddo y bydd yn difaru pan fydd yn frenin os bydd wedi achosi'r holl golli gwaed yma'r diwrnod hwn. Gwelwn felly fod Abigail yn defnyddio cyfuniad o'r galon a'r pen i ddod â heddwch i'r sefyllfa.

## **3. 'Gwell yr heddwch gwaethaf na'r rhyfel gorau,' medd y ddihareb Gymraeg**

Roedd Abigail yn sylweddoli hynny. Roedd Otto von Bismarck, yn ôl ei dystiolaeth ei hun, yn gyfrifol am ddechrau tri rhyfel a arweiniodd at golli 800,000 o ddynion. Faint o ryfeloedd sydd wedi digwydd am fod dynion wedi rhuthro i ymladd â'i gilydd? Ac am nad oedd neb fel Abigail yno i resymu'n araf, yn bwyllog ac yn rhesymegol. Mae yna ddyletswydd arnom fel Cristnogion i weithio dros heddwch ym mhob sefyllfa fel y gwnaeth Abigail.

## **PWYNTIAU ERAILL POSIBL Y GELLID MYND AR EU HOLAU**

Dyweddodd rhywun ein bod ni'n ffodus mai menyw oedd yn y sefyllfa yma. Mae gan fenywod fwy o ddeallusrwydd emosiynol (*emotional intelligence*) mewn sefyllfaoedd fel hyn.

Os oedd Abigail yn danbaid dros heddwch, cymaint mwy felly roedd Iesu Grist. Ef yw brenin heddwch a thywysog tangnefedd.

Roedd y proffwyd Eiseia wedi rhagweld geni tywysog tangnefedd – 'canys bachgen a aned i ni . . .' Dim ond Iesu all ein harwain ni i greu byd heddychlon.

## **GWEDDI**

Diolch i ti am hanes Abigail. Diolch am bawb sy'n gweithio dros heddwch yn ein byd. Mor aml mae pobol yn rhuthro i gwmpo mas gyda'i gilydd ac i ymladd yn erbyn ei gilydd. Diolch am bawb sy'n dangos yn rhesymegol ac yn bwyllog mai ofer



yw pob ymladd a chwmpo mas. Arwain ni i geisio bod fel Abigail ac i ddod â phwyll a rhesymeg – ac yn fwy na dim, heddwch – i bob sefyllfa.

A diolch am Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd, yr un sydd wedi dangos i ni'r ffordd at heddwch a chymod. Yr un sydd wedi dangos i ni mai brodyr i'n gilydd ydyn ni i gyd, a'th fod di yn dad i bawb ohonom.

Arwain ni i weithio dros heddwch bob diwrnod tra ein bod ar y ddaear yma. Rho i ni'r hedd na wŷr y byd amdano – heddwch gyda Thi, heddwch gyda'n cyd-ddyn, a heddwch gyda ni ein hunain.

Hyn a ofynnwn yn enw Iesu, yr hwn a'n dysgodd i weddio gyda'n gilydd:  
Ein Tad . . .

**EMYN 205** 'Dyma gariad fel y moroedd'

### Y FENDITH

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni oll. Amen

*[Diffodd y gannwyll fel arwydd bod yr oedfa wedi dod i ben]*

(G.LI.)